## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 18 Ionawr 2006

**NNDM2783 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4 yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru:

Dafydd Elis-Thomas (Y Llywydd)
Jane Hutt (Llafur)
Leighton Andrews (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Val Lloyd (Llafur)
Gwenda Thomas (Llafur)
Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Nick Bourne (Y Blaid Geidwadol)
David Melding (Y Blaid Geidwadol)
Mike German (Y Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol y Llywydd i gadeirio'r Pwyllgor.

**NNDM2782 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i ystyried Mesur Llywodraeth Cymru.

2. Teitl y Pwyllgor fydd Pwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru;

3. Bydd un Aelod ar ddeg o'r Cynulliad yn aelodau o'r Pwyllgor, pump o'r Blaid Lafur, dau o Blaid Cymru, dau o Blaid Ceidwadwyr Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Llywydd fydd yn cadeirio'r Pwyllgor;

4. Cylch gorchwyl Pwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru fydd:

a) Ystyried y cynigion a geir yn y Mesur.

b) Ystyried pa faterion bynnag eraill sy'n codi o'r Mesur fel y penderfyno'r Pwyllgor.

5. Bydd y pwyllgor yn cyflwyno'i argymhellion fel y bo'n briodol ac, os tybiant ei bod yn

briodol, cânt wneud hynny drwy gyflwyno cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 33.9. Daw'r Pwyllgor i ben ar y dyddiad pan gaiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol.

*Gyda'r cynnig uchod cafwyd yr asesiad canlynol o'r costau, y buddion ac unrhyw oblygiadau eraill sy'n berthnasol i sefydlu'r Pwyllgor:*

**Asesiad o Gostau a Buddion sefydlu Pwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru**

**Costau'r Pwyllgor**

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu drwy gyfrwng adnoddau presennol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

**Buddion y Pwyllgor**

Sefydlu'r Pwyllgor ychwanegol, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob plaid, fyddai'r ffordd orau o fwrw ymlaen i ystyried y cynigion a geir yn y Mesur a materion eraill sy'n codi o'r Mesur. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i argymhellion fel y bo'n briodol a daw i ben ar y dyddiad pan gaiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol.

Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol.